Gwasanaethau Masnachol - Preswylfeydd

# Polisi Dyraniadau Neuaddau Preswyl

**Cymeradwyo:**
**Sefydledig:**
**Fersiwn: 11**
**Diwygiedig: Mawrth 2023**
**Diwygiad nesaf: Mawrth 2024**

# Polisi Dyraniadau Neuaddau Preswyl

Mae'r ddogfen hon yn cynnig braslun o'r polisi ar gyfer dyrannu ystafelloedd yn Neuaddau Preswyl Prifysgol Metropolitan Caerdydd ynghyd â dyrannu ystafelloedd mewn unrhyw neuaddau preswyl preifat lle mae naill ai cytundeb enwebu anffurfiol neu ffurfiol yn bodoli.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ymdrechu i sicrhau llety i bob myfyriwr israddedig blwyddyn gyntaf llawn amser a myfyrwyr rhyngwladol blwyddyn gyntaf sy'n dymuno byw mewn Neuaddau .

**Gwarantau**

Y rhai gallwn warantu llety iddynt yw:

- Myfyrwyr 17 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd – bydd y myfyrwyr hyn lle bynnag y bo modd yn cael eu rhoi mewn neuaddau sy'n eiddo i'r Brifysgol yn unol â'r Polisi Ynglŷn â Myfyrwyr neu Weithwyr sydd o dan 18 oed
- Y myfyrwyr hynny hyd at 24 oed sydd wedi bod yng ngofal Awdurdod Lleol cyn iddynt ddechrau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac sy'n gymwys i gael y fwrsariaeth i adael gofal. Byddant lle bynnag y bo'n bosibl yn cael eu gosod mewn Neuaddau sy'n eiddo i'r Brifysgol ac efallai y byddant yn aros mewn neuaddau dros gyfnod Gwyliau'r Haf ac yn eu hail a'u trydedd flwyddyn os oes angen. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf fel Myfyrwyr Wedi'u Hymddieithrio. Mae myfyriwr sydd wedi ymddieithrio yn astudio heb gefnogaeth rhwydwaith teuluol ac sy'n cael ei ymddieithrio'n afresymol gan eu rhieni. Does gan fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio ddim perthynas gyfathrebol â naill ai eu rhieni mabwysiadol neu fiolegol.
- Mae myfyrwyr ag anableddau sydd angen llety addasedig addas ar gael – gall y myfyrwyr hyn aros mewn neuaddau yn eu hail a'u trydedd flwyddyn os oes angen.
- Myfyrwyr Rhyngwladol Unigol yn eu blwyddyn gyntaf o astudio ym Met Caerdydd ar yr amod eu bod yn cwblhau'r weithdrefn ymgeisio a amlinellir gan Ymgysylltu Byd-eang cyn y dyddiad cau dyrannu a osodwyd yn y weithdrefn honno.

Yn ogystal, rydym yn darparu'r gwarant cyfyngedig canlynol:

Byddwn yn gwarantu lle i chi mewn llety a gymeradwyir gan y Brifysgol os ydych yn gwneud cais i fod yn fyfyriwr llawn amser ym Met Caerdydd am y tro cyntaf.

Er mwyn bodloni'r meini prawf ar gyfer llety gwarantedig, mae angen i chi hefyd:

- fod wedi derbyn cynnig am le yn Met Caerdydd a wedi gwneud eich dewis cyntaf drwy UCAS
- cyflwyno cais eich neuaddau ar-lein am lety i ni erbyn 31 Mai
- bod angen y llety ar gyfer y cyfnod gosod llawn fel un deiliad
- derbyn ein cynnig o lety, a thalu eich blaendal i ni, o fewn saith diwrnod i ni roi'r cynnig i chi
- nid ydych yn fyfyriwr "lleol" fel y nodir isod

**Meini Prawf Dyrannu Neuaddau Preswyl**

**Blaenoriaethau**

Mae'r meini prawf ar gyfer blaenoriaethu yn cael eu diffinio isod :

- Myfyrwyr israddedig neu Sylfaen blwyddyn gyntaf diamod nad ydynt wedi byw mewn Neuaddau Preswyl o'r blaen

- Dyddiad derbyn y Cais Neuaddau ar-lein – bydd neuaddau'n cael eu dyrannu yn nhrefn dyddiad y cais

- Pellter i deithio i Gaerdydd - y myfyrwyr hynny sy'n byw yn ardal Awdurdod Lleol Cyngor Caerdydd yn cael eu cynnal ar restr aros nes bod llefydd gwag yn dod.

- Myfyrwyr gydag amgylchiadau meddygol neu gymdeithasol eithriadol. Rhaid darparu tystiolaeth ategol gan weithiwr proffesiynol â chymwysterau addas yn y maes perthnasol ac mae'n rhaid i asesiad gael ei gynnal gan Dîm Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol gan amlinellu'r rhesymau dros yr eithriad ac argymhellion ar gyfer math o lety a lleoliad

Gwneir yr holl gynigion yn seiliedig ar gontract blwyddyn Academaidd lawn – 40 wythnos ar hyn o bryd (42 mewn neuaddau preifat enwebu). Ni allwn gynnig unrhyw gontractau tymor byrrach.

Ni wneir unrhyw warant y bydd ymgeisydd yn cael llety yn ei ddewisiadau cyntaf neu ddilynol o neuaddau oherwydd y galw mawr am lety. Yn ogystal, bydd myfyrwyr ond yn cael cynnig llety mewn neuaddau sydd wedi eu dynodi ar gyfer eu campws

astudio oni bai bod amgylchiadau eithriadol i'w gwneud yn ofynnol am lety mewn neuaddau nad ydynt yn gysylltiedig â champws astudio'r myfyrwyr.

Ni fydd myfyrwyr sydd wedi cwblhau cwrs Sylfaen blaenorol ym Met Caerdydd yn gallu gwneud cais am lety.

Siaradwyr Cymraeg

Bydd myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac a hoffai fyw gyda myfyrwyr Cymraeg eraill yn cael llety gyda'i gilydd ar yr amod fod dewisiadau eu llety a wneir yn eu cais neuaddau yn cyfateb â siaradwyr Cymraeg eraill, mae dyddiad eu cais yn cwrdd â'r math o lety ac ni thybir eu bod yn lleol fel y diffiniwyd uchod.